Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Brynaerau
# Pontllyfni
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 5BU

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Brynaerau

Lleolir Ysgol Gymuned Brynaerau mewn ardal wledig, rhyw hanner milltir o bentref Pontllyfni, sydd ar y briffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 64 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 3 dosbarth oedran cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 9% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (18%). Mae tua 70% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn agos i'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2016. Mae ganddi gyfrifoldeb dros ysgol arall gyfagos ac mae'n rhannu ei hamser rhwng y ddwy ysgol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn iawn ac yn cymhwyso’u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hynod lwyddiannus mewn ystod o wahanol weithgareddau creadigol ac integredig.  Mae safonau lles, ymddygiad ac agweddau bron bob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog.  Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith.

Rhoddir bri ar barch a chwrteisi rhwng disgyblion â’i gilydd, a rhwng plant ac oedolion o fewn amgylchedd gofalgar, cefnogol a Chymreig ei naws.  Mae hyn yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol sy’n cyfrannu’n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy’n bodoli yno.  Mae athrawon yn darparu cwricwlwm creadigol, ymarferol ysgogol sy’n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn tanio’u dychymyg.  Mae profiadau dysgu ac anturiaethau cyffrous yn cymell a chefnogi disgyblion yn llwyddiannus iawn. Caiff disgyblion lais amlwg wrth lywio eu dysgu.  O ganlyniad, maent yn mwynhau mynychu’n ddyddiol, yn dyfalbarhau wrth eu tasgau ac yn datblygu’n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol.

Mae’r pennaeth a’r pennaeth cynorthwyol yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.  Mae diwylliant o wella yn treiddio’r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwella yn ganolog i ethos yr ysgol. Nodwedd arbennig yw’r pwyslais cryf ar ddatblygu staff.  Mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gref lle mae staff yn wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg yn frwdfrydig a hyderus ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Creu mwy o gyfleoedd i athrawon ymchilio a gwerthuso effaith y cwricwlwm newydd ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ynglŷn a'i gwaith mewn perthynas ag effaith cwricwlwm creadigol ac ymarferol ysgogol ar safonau ac annibyniaeth disgyblion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni'n dda ac yn gweithio'n annibynnol. Maent yn perfformio ar ddeilliannau a lefelau sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hynod lwyddiannus mewn ystod o wahanol weithgareddau creadigol ac integredig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd. Mae medrau llafar Cymraeg yr ychydig ddisgyblion a ddaw o gartrefi ble na siaredir y Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron bob disgybl yn trafod eu tasgau â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa eang a chywir, er enghraifft wrth drafod sut y gallent leihau sbwriel o fewn yr amgylchedd. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau grŵp, er enghraifft wrth gyd-gynllunio stori ddychmygol. Maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall, er enghraifft wrth drafod eu hymgyrch i gasglu arian ar gyfer elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn fuan ac yn magu hyder wrth fwynhau gweithgareddau cyfoethog. Mae ganddynt fedrau ffonig cadarn wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr medrus. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'u medrau i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau priodol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth wneud gwaith ymchwil ar y pyramidiau.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. O'r cychwyn cyntaf, maent yn cofnodi llythrennau, cymalau a geiriau syml ac yn datblygu hyder yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ysgrifenwyr creadigol a medrus, er enghraifft wrth greu disgrifiadau clir a chryno o daith i ben Bryn Dinas. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn strwythuro eu gwaith yn gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan arddangos gafael gadarn ar gystrawen ac atalnodi. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n aeddfed mewn amrediad eang o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel, er enghraifft wrth gymharu'r gwahaniaethau o fewn gwasanaethau meddygol yng Ngwynedd ac India. Mae llawer yn creu darnau creadigol, dychmygus ac yn gwneud defnydd o effeithiau a chymariaethau yn llwyddiannus iawn i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth greu ymson chwarelwr gan ddefnyddio darluniau artist lleol fel sbardun.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Nodwedd arbennig yw eu gallu i drosglwyddo'u medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn fedrus iawn ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn

dangos dealltwriaeth dda o ffeithiau rhif ac yn eu cymhwyso'n hyderus mewn sefyllfaoedd newydd, er enghraifft wrth gyflawni her creu mwclis. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd bron pob disgybl yn hynod gadarn, gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth a data yn fedrus iawn ar wahanol ffurfiau i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am wahanol wledydd.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn hyderus iawn wrth ddefnyddio amrediad o raglenni sy'n cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â pha offer i'w defnyddio i gyflawni tasgau penodol. Maent yn cymhwyso eu medrau TGCh i safon uchel ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau amlgyfrwng ar swyddogaeth gwahanol organau'r corff. Maent yn creu, dadansoddi a dehongli cronfa ddata'n ddeallus i gefnogi eu gwaith, er enghraifft am yr Her 3 Copa. Nodwedd eithriadol o'u gwaith yw eu defnydd medrus a chelfydd o amrywiaeth eang o raglenni i greu ffilmiau diddorol a chreadigol i safon uchel iawn.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae safon lles, ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu, yn ardderchog. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth disgyblion mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda. Mae bron bob disgybl yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau a heriau yn ddiwyd a brwdfrydig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol iawn sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae cryfder y perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu creadigol ac ymarferol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i'w dysgu. Maent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau yn hyderus iawn am yr hyn yr hoffent ddysgu amdano. Maent yn dewis llwybrau dysgu heriol er mwyn cwblhau tasgau estynedig.

Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol, mae bron pob disgybl yn meddu ar rai o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu'n effeithiol ac yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd. Mae'r disgyblion yn rhagori wrth gefnogi ei gilydd. Adlewyrchir hyn yn eu hymateb brwdfrydig i'r strategaeth 'tri cyn fi' sy'n eu cymell i weithio'n annibynnol ac i awgrymu ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau neu wella eu gwaith i'w cyfoedion. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, awyddus a hyderus. Mae bron pob disgybl yn sylweddoli pwysigrwydd dyfalbarhau, a bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, maent yn dangos aeddfedrwydd wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac i adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen.

Mae bron pob disgybl yn hapus iawn ac yn mwynhau bywyd llawn yr ysgol. Maent oll yn teimlo'n ddiogel yno a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae bron pob

disgybl yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder mawr yn eu hysgol, eu cymuned a'u Cymreictod.  Maent yn eithriadol o ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch mawr tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol.  Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol.  Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd aeddfed mae disgyblion hŷn, sy'n aelodau o'r Criw Siarter Iaith ac yn llysgenhadon chwaraeon, yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn gydwybodol â rolau a chyfrifoldebau arwain fel aelodau o'r cyngor ysgol, ysgol werdd, ysgol iach ac fel dewiniaid digidol.  Mae'r aelodau'n deall eu bod yn rhoi llais amlwg i'w cyd-ddisgyblion ac yn eu galluogi i gael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion.  Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig iawn mewn ystod o weithgareddau.  Enghraifft nodedig o'u cyfraniad yw cynllunio ac arwain ar flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.  Maent yn cyfrannu'n helaeth wrth godi arian ar gyfer elusennau a chyfranogi tuag at sefydliadau lleol.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned glòs.  O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a moesol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol yn rheolaidd.  Mae bron pob disgybl yn gwella'u ffitrwydd trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl a thrwy weithgareddau allgyrsiol.  Mae'r 'dewiniaid digidol' yn weithgar wrth atgoffa'u cyd-ddisgyblion am reolau'r rhyngrwyd.  O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth gadarn gan bron pob disgybl o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.  Mae bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Rhagorol**

Trwy gydweithio effeithiol iawn, mae'r athrawon wedi creu cwricwlwm creadigol, ymarferol, ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn tanio'u dychymyg.  Maent yn darparu profiadau dysgu ac anturiaethau cyffrous i'w disgyblion, sy'n eu cymell a'u cefnogi yn llwyddiannus iawn.  Mae athrawon wedi ymateb yn frwdfrydig iawn wrth addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru.  Mae'r profiadau dysgu yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn hynod lwyddiannus yn drawsgwricwlaidd ac mewn modd integredig.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agwedd disgyblion tuag at eu dysgu.  Trwy gynnwys llais eu disgyblion yn y cynllunio, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt chwarae rôl weithredol wrth lywio eu dysgu.  Mae hyn yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau dysgu blaenorol ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn.  Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol iawn.  O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol ac ysgogol gan sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n unol â'u gallu.  Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda iawn, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt tra maent yn gweithio, a rhyngweithio â'u cymheiriaid.  Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o amrywiaeth o ddulliau

addysgu llwyddiannus sy'n sicrhau bod bron bob disgybl yn ymgymryd yn llwyr â'u dysgu. Mae darpariaeth y cyfnod sylfaen wedi ei wreiddio'n gadarn yn yr ysgol. Mae cydbwysedd da rhwng profiadau sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu. Mae staff yn gwneud defnydd hyblyg o adnoddau'r ysgol ac yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn effeithiol wrth drefnu'r ardaloedd dysgu, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan.

Mae cyflwyniadau dychmygus a chyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu yng nghyfnod allweddol 2. Enghraifft wych o hyn yw gwaith disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wrth gynllunio sut i ddianc o feddrod y brenin Twt. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn. Maent yn holi'n fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion, ac ar adegau yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch. Maent yn defnyddio holi penagored yn llwyddiannus iawn er mwyn annog y disgyblion i feddwl yn annibynnol. Enghraifft wych o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn mewn ymateb i'r cwestiwn 'All un person newid y byd?' Mae hyn oll yn cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn eu dysgu, ac yn sicrhau eu bod yn ymroi'n llawn i'w gwaith.

Datblygir medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn naturiol fel rhan annatod o'r cynllunio. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'u medrau'n hyderus iawn ymhob maes dysgu. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli, a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae staff yn modelu iaith lafar raenus sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. Enghraifft wych yw brwdfrydedd y disgyblion wrth drafod eu murlun o Ddyffryn Nantlle ar wal yr ardd.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'r meini prawf llwyddiant. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn eithriadol o dda. Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd Cymreictod, cwrteisi, parch a 'cheisio ein gorau glas' yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol. Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod bron bob disgybl yn ffynnu, yn datblygu hunanhyder a brwdfrydedd heintus ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, awyddus ac annibynnol. Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. Fe amlygir hyn yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio gyda chwmni dawns, i ddatblygu medrau drama a dawnsio'r disgyblion. Nodwedd arbennig o'u gwaith oedd perfformiad o safon uchel iawn mewn theatr lleol yn seiliedig ar waith o wledydd amrywiol. Mae'r staff yn trefnu cyfleoedd cyson i'r disgyblion gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn eu milltir sgwâr yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl brofiadau gwerthfawr iawn a roddir i'r disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at eu paratoi i fod yn ddinasyddion hyderus, annibynnol ac aeddfed ac yn sbardun ychwanegol i'w hawydd i ddysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r sylw gofalgar y mae'r staff yn ei roi i ystyried llais y disgybl yn cyfrannu'n effeithiol iawn at gyfleoedd i'r disgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'u dysgu. Mae'r disgyblion yn awyddus a hyderus wth ddewis anturiaethau heriol i'w cyflawni. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dod yn ddinasyddion gweithgar drwy gymryd rhan mewn grwpiau llais y plentyn dylanwadol, fel y cyngor ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy drefnu'r 'her 3 copa' i gasglu arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru'.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol a thrwyadl er mwyn olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym ac i ddarparu ar eu cyfer. Maent yn datblygu ac yna gweithredu rhaglenni effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ac sy'n anelu i fodloni eu hanghenion. Mae cefnogaeth ofalgar i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae gwybodaeth fanwl gan gynorthwywyr dysgu am dargedau disgyblion ac maent yn cefnogi'r holl ddysgwyr yn gydwybodol iawn. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryno a chlir. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni gan eu haddasu'n bwrpasol yn ôl yr angen.

Mae perthynas hynod o gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni, y gymuned a'r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol, ac fe gynhelir cyfarfodydd cynnydd rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth ac atgyfnerthu'r hyn y gall rhieni ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. O ganlyniad, ceir ymglymiad gwerthfawr rhieni yn addysg eu plentyn. Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau. Cefnogir hyn yn llwyddiannus gan gymdeithas rhieni ac athrawon wrth iddynt godi arian i brynu adnoddau, fel cyfarpar technolegol ac i ddatblygu'r ardal allanol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion astudio'r amgylchedd fel rhan o waith y dosbarth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae rhieni wedi derbyn gwybodaeth am sut i greu pecynnau bwyd iach ac mae'r cyngor ysgol iach yn hyrwyddo bwydydd iach a bwyta ffrwyth amser egwyl ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth dda am beth sydd angen ei wneud i gadw'n iach. Mae'r cyfleoedd buddiol, ynghyd â'r ystod o adnoddau allanol pwrpasol ar gyfer sesiynau ymarfer corff a chlybiau chwaraeon, yn cyfrannu'n llwyddiannus at les disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cynnig arweinyddiaeth flaengar a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ac mae'r ddwy yn angerddol iawn am y gymuned maent yn ei gwasanaethu. Maent yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth i'r ysgol sy'n canolbwyntio ar Gymreictod, cwrteisi, caredigrwydd a 'cheisio ein gorau glas'. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r holl staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr, sy'n arwain yn llwyddiannus at ddisgwyliadau uchel o werthoedd addysgol clir ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae parodrwydd y pennaeth a'r holl staff i wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg gyda hyder a chreadigrwydd yn nodwedd arbennig. O ganlyniad, mae ymateb yr ysgol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn gryfder, ac yn cyfrannu at safonau uchel iawn o addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r athrawon wedi addasu'r ddarpariaeth ar gyfer sefydlu cwricwlwm newydd i Gymru trwy greu cwricwlwm creadigol, ymarferol ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn tanio'u dychymyg. Mae strategaethau addysgu cytûn wedi eu sefydlu gyda phwyslais amlwg ar sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol o'u dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn awyddus i gwblhau tasgau i lefelau uchel ac yn falch o'u gwaith ac yn ei berchnogi. Yn ogystal, mae'r ymateb i sefydlu'r Fframwaith Digidol a hybu'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol yn esgor yn eithriadol o lwyddiannus ar safonau uchel ymysg y disgyblion.

Mae'r pennaeth yn dyrannu cyfrifoldebau'n effeithiol iawn ac mae aelodau'r staff yn ymateb yn frwdfrydig iawn wrth ddatblygu meysydd ac agweddau dysgu er mwyn codi safonau disgyblion. Mae rolau staff a'u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac yn hyrwyddo gwaith tîm o ansawdd uchel. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad hynod o gadarn, ac mae'r pennaeth yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn gelfydd drwy gysylltu blaenoriaethau hyfforddiant gyda blaenoriaethau gwelliant o fewn cynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at gymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu a datblygu gyda'i gilydd yn effeithiol iawn. Mae hyfforddiant ar y cyd gydag ysgolion lleol yn ychwanegu'n dda at ddatblygiad proffesiynol y staff. Drwy gyd-gynllunio gyda dwy ysgol arall, mae cyfleoedd gwerthfawr i'r staff werthuso ansawdd yr addysgu, ac adnabod effaith eu gwaith ar safonau. Mae'r pennaeth yn rhannu arferion da'r ysgol drwy arwain cyrsiau i athrawon yr awdurdod ynglŷn ag olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau heriol sy'n gysylltiedig â thargedau disgyblion.

Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i ethos yr ysgol. Mae trefniadau hunanwerthuso yn llwyddiannus ac yn canolbwyntio'n glir ar safonau ac effaith y darpariaethau ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae tystiolaeth uniongyrchol o ystod eang o ffynonellau yn cyfrannu'n effeithiol at y broses, gan ganolbwyntio ar ymestyn safonau disgyblion. O ganlyniad, mae'r holl staff yn adnabod yr ysgol yn drylwyr ac yn llwyddo i sicrhau gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae'r staff cynorthwyol yn cynnig cefnogaeth gadarn a chânt effaith sylweddol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn canolbwyntio'n uniongyrchol

ar ddeilliannau'r broses hunanwerthuso, ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i fesur ac adnabod cynnydd.  Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi gwella'r arferion asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn adborth mwy effeithiol am eu gwaith.  Mae'r disgyblion yn cael llais amlwg o fewn y broses werthuso gan fod yn rhan greiddiol wrth bennu blaenoeriaethau gwella,  er enghraifft trwy ddymuno  wybod mwy am eu hardal leol a datblygu gardd yr ysgol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion wedi derbyn cyfle gwerthfawr i greu murlun deniadol o fynyddoedd Eryri sy'n addurno wal yr ardd.  Mae'r gweithgareddau hyn yn llwyddo i fagu medrau creadigol o safon uchel ymysg y disgyblion.

Mae gan aelodau y corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol.  Maent yn ymroddgar ac mae eu hymweliadau cyson yn eu galluogi i chwarae rhan weithredol wrth werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwelliant.  Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a helpu i osod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol.  Maent yn rheoli a monitro'r gyllideb yn ofalus ac mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol, fel offer TGCh, sy'n llwyddo i ymestyn cyfleoedd gwerthfawr i'r dysgu ac addysgu.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i wella safonau llythrennedd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2019